

**2017 Rhif 19 (Cy. 7)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**Gorchymyn Cefnffordd yr A4042  
(Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan  
Edlogan Way, Torfaen)  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2017**

*Gwnaed* 9 Ionawr 2017

*Yn dod i rym* 16 Ionawr 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o’r gefnffordd a chyfyngu arno oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ionawr 2017. Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan Edlogan Way, Torfaen) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (c. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig —

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 16 Ionawr 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o'r gefnffordd yn Sir Torfaen a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## **Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar naill ai'r gerbyttffordd tua'r gogledd neu'r gerbyttffordd tua'r de ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** (1) Pan waherddir symud traffig gan erthygl 3 ar y gerbyttffordd tua'r gogledd, ond nas gwaherddir ar y gerbyttffordd tua'r de, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y lôn allanol o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gogledd.

(2) Pan waherddir symud traffig gan erthygl 3 ar y gerbyttffordd tua'r de, ond nas gwaherddir ar y gerbyttffordd tua'r gogledd, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y lôn allanol o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r de.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw

gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

### **Cyfyngiadau**

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 7 ar waith.

### **Atal Dros Dro**

10. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6, 7 ac 8 yn weithredol.

### **Cymhwyso**

11.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

12. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **Gwrthlif a Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Cwmbrân ar gefnffordd yr A4042 ynghyd â'r ffyrdd tua'r gogledd a thua'r de o'r pwyntiau croesi presennol ac sy'n arwain atynt.

### **ATODLEN 2**

#### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd yr A4042 o'i gysylltiad â Chylchfan Edlogan Way hyd at ei gysylltiad â Chylchfan Cwmbrân.

Y darn o gerbyttfordd tua'r de yr A4042 o'i gysylltiad â Chylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei gysylltiad â Chylchfan Cwmbrân.

### **ATODLEN 3**

#### **Terfyn cyflymder 40 mya a 10 mya dros dro, a dim goddiweddyd**

Y darn o gerbyttfordd tua'r de yr A4042 o'i gysylltiad â cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 210 o fetrau i'r de o Gylchfan Cwmbrân (ond heb gynnwys cerbyttfordd gylchredol Cylchfan Cwmbrân).

Y darn o gerbyttfordd tua'r gogledd yr A4042 o'i gysylltiad â cherbyttfordd gylchredol Cylchfan Edlogan Way hyd at bwynt 280 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Cwmbrân (ond heb gynnwys cerbyttfordd gylchredol Cylchfan Cwmbrân).

### **ATODLEN 4**

#### **Terfyn cyflymder 30 mya a 10 mya dros dro, a dim goddiweddyd**

Y darn cyfan o gerbyttfordd gylchredol Cylchfan Cwmbrân ar gefnffordd yr A4042.